Cyfle i chi fynegi eich safbwyntiau am blismona yng Ngogledd Cymru. Rwy'n dymuno gwybod beth sy'n bwysig i chi a pha fath o wasanaeth plismona yr ydych yn ei ddisgwyl gan yr Heddlu.

Dyma fy ngalwad am dystiolaeth a fydd yn fy nghynorthwyo i greu fy Nghynllun Heddlu a Throsedd.

Bydd y Cynllun yn gosod cyfeiriad strategol yr Heddlu.

Rwy'n bwriadu ystyried pob sylw y byddaf yn ei gael gan ein budd-ddeiliaid, partneriaid ac aelodau o gymuned Gogledd Cymru. Byddaf hefyd yn gwrando'n ofalus ar fy ymgynghorwyr ariannol a phroffesiynol ac wrth gwrs, y Prif Gwnstabl, er mwyn sicrhau y gallwn ni, fel tîm, ddarparu'r hyn y byddwn yn ei addo.

Y nod cyffredinol ar fy nghyfer i fy hun a'r Heddlu yw gwasanaethu a diogelu Gogledd Cymru.

Anfonwch eich safbwyntiau ataf drwy anfon neges e-bost at OPCC@nthwales.pnn.police.uk. Mi fedrwch hefyd ysgrifennu ataf at Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Pencadlys, Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar fy ngwefan www.northwales-pcc.gov.uk.

Diolch yn fawr.

Winston Roddick
Comisiynydd Heddlu a Throsedd